

Côd Ymarfer ynglŷn ag ymweliad Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Os y byddwch yn mynd i mewn i ysgol:

- **Cofiwch** wneud apwyntiad hefo'r Pennaeth Ysgol, hyd yn oed os ydych yn adnabod aelod o'r staff.
- Cofiwch mai **rhywun wedi eich gwadd** i'r ysgol ydych chi.
- Cofiwch wisgo'n drwsiadus ac addas.
- **Byddwch yn glir** beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch: faint o'r gloch ac ymhle'r ydych i fod; faint o amser sydd gennych; beth yw oed y plant y byddwch gyda hwy, ayb.
- **Gweddiwch o flaen llaw**, a gofynnwch i eraill weddio tra'r ydych yn yr ysgol.
- **Byddwch yn brydlon!** Cyrhaeddwch yn fuan a pheidiwch â mynd dros eich amser. Os y byddwch yn gorffen gwers neu wasanaeth rhyw ddau funud yn fuan, fe fyddwch yn boblogaidd iawn! Buasai gorffen ar amser yn well fyth! Buasai dau funud yn hwyr yn gallu drysu amseru gweddill y diwrnod i'r ysgol gyfan.
- **Byddwch yn gyson ac yn ddibynadwy.** Nid yw athrawon yn gwerthfawrogi galwad ffôn munud olaf yn dweud na fedrwych fod yno!
- **Dylai bod aelod o staff gyda chi bob amser** – i warantu eich cyfraniad ac er mwyn ymarfer da. Fe ddylen nhw ddelio gyda disgyblaeth, gan eich gadael yn rhydd i wneud eich rhan.
- **Fel Cristnogion**, rydym yn cyflwyno ein hunain i'r ysgol, felly, fel Cristnogion byddwn yn mynegi **ein** safbwynt a'n cred ein hunain a **pheidio â defnyddio iaith gynhwysol**. Rhaid peidio efengylu rhag cael ein cyhuddo o genhadu.
- **Holwch y Pennaeth os oes gofyn i chwi arwyddo datganiad ynglŷn â Diogelwch Plant ynghyd â chael eich gwirio trwy'r DBS.**
- Mae'r gwaith yma yn **fwy nag arwain addoliad ar y cyd**; efallai y gallai fod yn fwy buddiol cynorthwyo'r ysgol drwy amrywiaeth o

weithgareddau e.e. helpu plant i ddarllen, chwaraeon, gwaith crefft, mentora, cyfrannu at waith dosbarth penodol ayb.

- **Cofiwch gynllunio yn ofalus gan gydweithio gyda staff yr ysgol** – bydd hyn yn dylanwadu ar agwedd y staff tuag atoch.
- Byddwch yn ymwybodol o **ystod oedran a gallu** mewn addoliad ar y cyd a gwersi yn yr ysgol.
- Mae'n fanteisiol holi am themâu arbennig sydd gan yr ysgol ar unrhyw bryd er mwyn i'ch gwaith gefnogi gwaith yr ysgol.
- Efallai y bydd y **plant yn rhoi eu llinyn mesur arnoch**. Byddwch yn naturiol a dangoswch barch iddynt. Os y byddwch yn trafod gyda hwy, cofiwch fod ganddynt hawl i fod a gwahanol farn i chi, yn union fel y mae gennych chi berffaith hawl i ddweud yn glir yr hyn yr ydych chi'n ei gredu.
- **Does dim angen cael eich hun i ddadl benboeth** neu geisio ennill pwyntiau trwy ennill dadl. Cofiwch eich bod eisiau cael eich gwahodd yn ôl.
- **Cofiwch hefyd nad oes ymrwymiad ar y Pennaeth na'r athrawon i'ch gwahodd yn ôl.**
- **Yn dilyn eich ymweliad:** ysgrifennwch e-bost neu lythyr neu ffoniwch i ddiolch i'r staff a'r disgyblion.